**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mercher 13 Mai 2009 am 9.30 a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, B Blakeley, J Chamberlain Jones, W L Cowie, J A Davies, J M Davies, M Ll Davies, P Dobb, P C Duffy, M J Eckersley, G C Evans, R L Feely, I A Gunning, D Hannam, C Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, G M Kensler, P W Owen, D Owens, A G Pennington, B A Smith, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Cymorth), (G Butler), Swyddog y Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams), Catrin Gilkes (Cyfieithydd) a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Wayne Williams.

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr N Hughes ac L Morris.

**10 ETHOL CADEIRYDD**

Gwahoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol enwebiadau ffurfiol ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio gan roi gwybod i'r cyfarfod bod darpar enwebeion wedi cyflwyno datganiadau sydd wedi'u dosbarthu.

O ran swydd y Cadeirydd: Enwebodd y Cynghorydd Peter Duffy, a eiliwyd gan y Cynghorydd E R Jones y Cynghorydd **Selwyn Thomas** yn gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Enwebodd y Cynghorydd J Thompson-Hill, a eiliwyd gan y Cynghorydd I Gunning y Cynghorydd **Peter Owen** yn gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Anerchodd yr enwebeion y pwyllgor a bwriwyd pleidlais
O roi i bleidlais:

Etholwyd y **Cynghorydd Selwyn Thomas** yn gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer 2009/10.

Diolchodd y Cynghorydd Thomas y Pwyllgor am ei ethol a rhoddodd glod i'r cadeirydd sy'n ymadael, y Cynghorydd M Ll Davies am ei waith yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

**ETHOL IS-GADEIRYDD**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Enwebodd y Cynghorydd G C Evans, a eiliwyd gan y Cynghorydd D I Smith y Cynghorydd **Ray Bartley** yn is-gadeirydd y pwyllgor cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill, etholwyd y **Cynghorydd Ray Bartley** yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer 2009/10.

**11 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac yn gofyn i'r Pwyllgor benderfynu yn eu cylch.

***PENDERFYNWYD*** *bod:-*

*(a)* *argymhellion y Swyddogion, fel sydd yn yr adroddiad a gyflwynir nawr, yn cael eu cadarnhau a bod caniataid neu wrthodiadau cynllunio, beth bynnag yw'r achos, yn cael eu rhoi fel sy'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref 1994 ac/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiadau a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrwyd yn yr atodlen a gyflwynir nawr:-*

(i) Caniataid

| Rhif Cais | Disgrifiad a Sefyllfa |
|---|---|
| 46/2009/0087/PS | **Yn llefaru ar ran: R Salisbury**<br><br>Amrywio Amod Rhif 6 caniatâd cynllunio Rhif Cod 46/2007/0024/PF i alluogi trigolion, gwesteion, staff ac artistiaid i ddefnyddio bar y lolfa<br>**Spring Gardens Holiday Park, The Roe, Llanelwy**<br>**RHOI**<br>Yn amodol ar amod diwygiedig<br>1. Bydd bar y lolfa'n cael ei ddefnyddio'n atodol at ddefnydd y safle carafannau gan breswylwyr y carafannau, eu gwesteion, staff y safle ac artistiaid sy'n ymddangos yn unig. Ni fydd bar y lolfa'n cael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben rhwng 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn a 1 Mawrth y flwyddyn olynol oni bai y cytunir ar hynny ar bapur gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>2. *Rheswm*: Er mwyn cadw rheolaeth dros y defnydd o'r safle a'r cyfleusterau er lles amwynder.<br>**Er Gwybodaeth**<br>Mae Trwydded Mangre'r Safle'n caniatáu i westeion preswyl "gwirioneddol" y parc carafannau ddefnyddio bar y lolfa. Os eir yn groes i amcanion y drwydded, gallai'r drwydded gael ei hadolygu. Ystyrir y bydd archwiliadau cynllunio a thrwyddedu cyfunol ar hap yn sicrhau nad eir yn groes i'r amcan hwn. Mae'r oriau gweithredu awdurdodedig a nodwyd ar y drwydded fel a ganlyn:-<br><br>Llun - Iau 1130 – 2330 o'r gloch<br>Gwener - Sul 1130 – 0000 o'r gloch<br><br>Nid ystyrir bod angen dyblygu'r oriau gweithredu hyn ar y cais cynllunio gan fod y drwydded yn ymarfer y dulliau rheoli perthnasol dros sŵn ac aflonyddwch posibl. |
| 47/2009/0198/PF | Codi 2 stabl a sied fwydo<br>**The Croft, Ffordd Caerwys, Rhuallt, Llanelwy**<br>**RHOI** |

<u>Eitemau Gorfodaeth</u>

| | |
|---|---|
| ENF/2009/00028 | Toriad: codi ffens a gatiau dros 1m o uchder nesaf at briffordd.<br>**15 Cilgwyn, Rhewl, Rhuthun**<br>**PENDERFYNWYD**<br>Rhoi awdurdod i gyflwyno Hysbysiad Gorfodaeth gyda chyfnod cydymffurfio o ddeufis, gan orchymyn gostyngiad yn uchder y ffens a'r gatiau i 1m ar yr hyd lawn nesaf at y |

| | |
|---|---|
| | briffordd ac un panel ffens nôl ar ochr yr eiddo sy'n wynebu Cilgwyn.<br>Dechrau gweithrediadau erlyn lle mae unrhyw berson y cyflwynwyd Hysbysiad iddo yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad. |
| ENF/2009/00021 | Toriad 1) codi sied bris blociau yn yr ardd gefn<br>Toriad 2) codi modurdy ar wahân<br>Toriad 3) storio defnyddiau a chyfarpar adeiladu heb awdurdod<br>**21 Ffordd Brynhedydd, Y Rhyl**<br>***PENDERFYNWYD:***<br>Rhoi awdurdod i gyflwyno Hysbysiad Gorfodaeth gyda chyfnod cydymffurfio o ddeufis i sicrhau bod sied bris blociau heb awdurdod yn cael ei symud, disodli'r to ar ongl gyda tho gwastad, a symud y defnyddiau a'r cyfarpar adeiladu o'r gerddi blaen a chefn.<br>Dechrau gweithrediadau, neu unrhyw weithred briodol arall o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person, neu'r personau, y cyflwynwyd Hysbysiad Gorfodaeth neu unrhyw Hysbysiad arall iddynt, os byddant yn methu cydymffurfio â'r gofynion am hynny. |

**EITEMAU ER GWYBODAETH**

**12 DIWEDDARIAD AR FATERION GORFODAETH**

Cyflwynwyd: adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi manylion cynnydd a materion Gorfodaeth

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**13 DIWEDDARIAD AR APELIADAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi manylion apeliadau sy'n aros am benderfyniad a phenderfyniadau a wnaed o 1 Ionawr 2009 – 31 Mawrth 2009.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

Trafododd y Cynghorwyr wrandawiadau apelio diweddar a fynychwyd ganddynt, gan fynegi'r farn y byddai croeso i hyfforddiant ar apeliadau i bob Cynghorydd.

Cytunodd y swyddogion i gynnwys apeliadau'n bwnc mewn digwyddiad hyfforddiant sydd ar ddod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.25 am.

******